**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion y cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 20fed o Fedi ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 o'r gloch y prynhawn.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd); B Davies (Swyddog Monitro); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Datblygu); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); G Jones (Rheolwr Cefnogaeth Gweithredol); S Forrest (Prif Gyfrifydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| C Everett | Clerc yr Awdurdod |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD 19EG GORFFENNAF 2010

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Gorffennaf yn gofnod gwir a chywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 3.1 – Peiriant ag ysgol ac esgynlawr (ALP) – Hysbyswyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod cyfarfod briffio am yr ALP wedi ei gynnal, yn bennaf ar gyfer Aelodau anweithredol, ar y 3ydd o Fedi. Ar gais Aelod Seneddol lleol, cafodd gyfarfod gyda'r Prif Swyddog Tân a derbyniodd yr un gwybodaeth a roddwyd i Aelodau. Gwneir penderfyniad terfynol ynglŷn â'r mater ar 18fed o Hydref.

3.2 3.2 – Prosiect Cyfalaf Wrecsam - Cafodd yr Aelodau ddiweddariad gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks. Roedd dau leoliad yn dal ar gael. Roedd darn arall o dir wedi ei gynnig gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac yn cael ei archwilio am addasrwydd ar hyn o bryd.

4 RHAGOLYGON CYLLIDEB AR GYFER 2011-12

4.1 Roedd yr adroddiad yn cynghori'r Aelodau o'r sefyllfa bresennol parthed cyllideb 2011/12.

4.2 Fe gafodd Gweithgor Datblygu Cyllideb y Panel gyfarfod Ddydd Mawrth 14eg o Fedi 2010 lle'r oeddynt wedi trafod opsiynau gwahanol i ymdrin gyda'r gostyngiad disgwyliedig yn y gyllideb dros y blynyddoedd nesaf. Roedd Aelodau wedi gofyn i'r swyddogion lunio opsiynau yn seiliedig ar ostyngiad o 6% dros 3 mlynedd ar gyfer eu cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 8fed o Hydref.

4.3 Hysbysodd y Trysorydd yr Aelodau fod y Cynulliad yn cynllunio ar gyfer gostyngiad o 3% y flwyddyn dros y 3 mlynedd nesaf ac na fyddai gostyngiad o 6% dros yr un amser yn ddigonol.

4.4 Eglurodd y Prif Swyddog Tân y byddai gostyngiad o 6% yn cael effaith ar bob rhan o'r Gwasanaeth. Nododd ei bryder am y term `rheng flaen' ac roedd yn ystyried pob aelod o staff yn rhai rheng flaen gan eu bod yn ymgymryd â swyddogaethau cyd-ddibynnol gwerthfawr o fewn y Gwasanaeth.

4.5 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad a ddarparwyd ac y byddai gwybodaeth bellach ar gael mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.**

5 ADOLYGIAD O GYFLENWI SWYDDOGION DROS DRO

5.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon gyflwyniad ar adolygiad cyflenwi swyddogion dros dro. Diben yr adolygiad oedd adolygu pa rolau sydd eu hangen i roi cefnogaeth weithredol. Gallai'r rhai nad oedd angen sgiliau gweithredol gael eu trosglwyddo i amodau a thelerau'r llyfr gwyrdd; byddai hyn yn arbed ariannol yn ogystal â bod yn ffordd fwy effeithiol o gyflwyno gwasanaethau.

5.2 Roedd yr adolygiad yn edrych ar ostwng y nifer o swyddogion tactegol, gweithredol a strategol oedd eu hangen o fewn y Gwasanaeth. Cynhaliwyd trafodaethau gyda phob swyddog oedd yn cael eu heffeithio gan yr adolygiad, yn ogystal â'r cyrff cynrychioli ac roedd pawb wedi derbyn y cyflwyniad. Roedd y wybodaeth ar gael i staff ar fewnrwyd y Gwasanaeth.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR AMCANION GWELLA A LLEIHAU RISG DRAFFT YR AWDURDOD AR GYFER 2011-12

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar amcanion gwella a lleihau risg drafft yr Awdurdod ar gyfer 2011-12. Gofynnwyd i'r Aelodau argymell y Cynllun Gwella a Lleihau Risg 2009-12 i gyfarfod llawn yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 18fed Hydref.

6.2 Roedd y ddogfen ymgynghori 'Dweud eich Dweud' wedi cael ei hargraffu a'i dosbarthu ac roedd e-bost wedi cael ei anfon yn hysbysu pobl fod y ddogfen ar gael yn electronig ar wefan yr Awdurdod. Roedd y ddogfen wedi cael ei hanfon i ystod eang o bobl a sefydliadau megis AC/AS, cynghorau tref a chymunedol, sefydliadau yn y sector cyhoeddus, llyfrgelloedd ac amrywiaeth o sefydliadau fyddai â diddordeb ym mhynciau penodol y Cynllun Lleihau Risg efallai.

6.3 Derbyniwyd 23 o ymatebion ysgrifenedig ar draws Gogledd Cymru ac roeddynt wedi eu casglu a'u hatodi i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel. Roedd hi'n glir fod gan y cyhoedd bwysau ariannol mewn golwg wrth ymateb i'r ddogfen.

6.4 Roedd y mwyafrif o ymatebion a dderbyniwyd yn cefnogi'r amcanion gwella arfaethedig a'r trefniadau mae'r Awdurdod yn eu cynnig i sicrhau gwella parhaol. Roedd rhai ymatebion yn edrych am eglurhad pellach ar y cynigion, tra bod eraill yn cynnig awgrymiadau am fesurau ychwanegol neu amgen. Nid oedd yr un ymateb yn anghytuno'n uniongyrchol gyda chynigion yr Awdurdod, er bod rhai yn mynegi barn am flaenoriaethau perthnasol os fyddai arian yn brin.

6.5 Roedd y Cynghorydd M Ll Davies yn ymwybodol o un cyngor cymunedol oedd wedi edrych ar y ddogfen a theimlo mai 'ia' yn unig oedden nhw'n gallu ateb ar yr holiadur. Gofynnodd y Cynghorydd Davies os oedd angen ailedrych ar yr holiadur. Nododd y Cynghorydd G C Evans fod amrywiaeth o sylwadau am y diffyg gwybodaeth ac os dylid rhoi mwy o wybodaeth mewn dogfennau yn y dyfodol. Eglurodd y Prif Swyddog Tân fod pobl wedi cwyno fod y ddogfen yn rhy fanwl a thechnegol yn y gorffennol a'i bod hi'n anodd ymateb ac mai dyma pam eu bod wedi creu'r holiadur ia/na.

6.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar yr amcanion drafft; ac**

**(ii) yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd, argymell fod yr amcanion gwella a lleihau risg arfaethedig yn llunio sail y Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol yn 2011-12.**

7 MONITRO PERFFORMIAD

7.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y ffigyrau perfformiad ar gyfer y chwarter cyntaf, 1af Ebrill 2010 hyd 30ain Mehefin 2010, er gwybodaeth.

7.2 Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân at y canlynol:

- Tanau eilradd – oherwydd cyfnod sych ym mis Ebrill/Mai, roedd llawer o danau eithin/glaswellt, 790 eleni o gymharu gyda 496 y llynedd. Fe gafodd hyn effaith fawr ar y gyllideb ac roedd rhaid talu £70,000 yn ychwanegol yn ystod Ebrill a Mai o gymharu gyda'r taliad misol ar gyfartaledd.
- Roedd anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi wedi gostwng ers y llynedd.

- Tanau mewn cartrefi lle'r oedd larymau mwg yn bresennol - roedd pryderon fod y ffigyrau yn isel y llynedd, fodd bynnag, mae'n debyg mai'r rheswm am hyn oedd y newid yn y system o gasglu data. Felly, roedd yn dda nodi ein bod nôl i 60%.

7.3 Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M Thomas am ostyngiad yn y lefel o alwadau i neuaddau myfyrwyr ac adeiladau mawr eraill, cadarnhawyd fod y Gwasanaeth wedi bod yn gweithio'n galed gydag ysbytai yn ogystal â'r prifysgolion ym Mangor a Wrecsam. Roedd safonau'r systemau tân wedi gwella nawr a rhoddir gwahoddiad i swyddogion fynychu cyfarfodydd cynllunio adeiladau newydd yn gynharach i roi cyngor.

7.4 Gofynnodd y Cynghorydd G C Evans am y cynnydd mewn tanau eithin/glaswellt ac os oedd unrhyw waith yn cael ei wneud gydag undebau'r ffermwyr a chlybiau ffermwyr ifanc. Cadarnhawyd fod gwaith yn cael ei wneud gydag undebau'r ffermwyr, y comisiwn coedwigaeth ac eraill i sicrhau fod ganddynt yr addysg i'w galluogi i edrych ar ôl eu tir mewn modd effeithiol. Mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru wedi sefydlu prosiect ar y cyd i edrych yn fwy manwl ar y mater.

8 DATGANIAD O GYFRIFON 2009-10

8.1 Rhoddodd yr adroddiad gyfle i'r Aelodau edrych ar y Datganiad o Gyfrifon archwiliedig ar gyfer 2009-10 cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am gymeradwyaeth.

8.2 Hysbysodd y Trysorydd yr Aelodau fod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r gyfriflen yn dilyn trafodaeth gyda'r Archwilwyr. Roedd y gyfriflen yn unol â'r hyn oedd ei angen nawr. Diolchodd i Sandra Forrest a'r tîm am eu gwaith wrth baratoi'r Gyfriflen. Nodwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi derbyn adroddiad ISA260 `Archwiliad Cyfriflenni - Adroddiad i'r rhai â Rheolaeth' dda ac na wnaed unrhyw argymhellion gan yr Archwilwyr. Cyflwynir y ddwy ddogfen i'r Pwyllgor Archwilio ar 27ain o Fedi.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi Datganiad o Gyfrifon 2009-10 ac iddi gael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.**

9 MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2010

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i nodi cais Llywodraeth Cynulliad Cymru am dystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo yn ei archwiliad o'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru). Bydd y Mesur Llywodraeth Leol yn gwneud newidiadau fydd yn cryfhau strwythurau llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel ac yn sicrhau fod cynghorau lleol yn ymgysylltu gyda phob sector o'r cymunedau maen nhw'n gwasanaethu.

9.2 Hysbysodd y Swyddog Monitro yr Aelodau fod y Mesur yn targedu awdurdodau cyfansoddol yn bennaf; nid oes angen i'r Awdurdodau Tân ac Achub wneud unrhyw beth penodol ond efallai bydd rhai effeithiau oherwydd y newidiadau i'r awdurdodau cyfansoddol.

9.3 Nodwyd fod y Gweinidog yn gallu darparu canllawiau statudol ar gydweithio ac archwiliad ac y byddai'n rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus gadw at y canllaw.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac y bydd y Clerc yn darparu ymateb ysgrifenedig erbyn 1af Hydref yn gwneud sylwadau ar effeithiau posib archwilio a chydweithio ar yr Awdurdod Tân ac Achub.**